



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2007 Rhif 2044 (Cy.169)

DATGANOLI, CYMRU

LLWON

YR IAITH GYMRAEG

**Gorchymyn Ffurfiâu Cymraeg
Llwon a Chadarnhadau (Deddf
Llywodraeth Cymru 2006) 2007**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn rhagnodi ffurfiâu Cymraeg llwon a chadarnhadau y mae'n ofynnol i aelodau penodol o Lywodraeth Cynulliad Cymru, ac aelodau o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, eu cymryd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru (p.32) ("DLIC 2006"). Mae DLIC yn darparu mai'r rheini a geir yn Neddf Llwon Addewidiol 1868 (p.72) ac yn Neddf Llwon 1978 (p.19) yw ffurfiâu Saesneg y llwon a'r cadarnhadau hynny i fod.

Yn rhinwedd adran 26 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 (p.38), pan fo Deddf Seneddol yn pennu ffurf ar eiriau sydd i'w defnyddio at ddibenion swyddogol neu at ddibenion cyhoeddus penodol, caiff yr un priodol o Weinidogion y Goron wneud Gorchymyn sy'n rhagnodi ffurf Gymraeg ar eiriau sydd i'w defnyddio mewn amgylchiadau a bennir yn y Gorchymyn.

Rhoddyd y pŵer i wneud y cyfryw Orchymyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672, Erthygl 2, Atodlen 1). Trosglwyddwyd y pŵer i Weinidogion Cymru wedi hynny yn rhinwedd paragraff 30(1) o Atodlen 11 i DLIC 2006.

WELSH
STATUTORY INSTRUMENTS

2007 No. 2044 (W.169)

DEVOLUTION, WALES

OATHS

WELSH LANGUAGE

**The Welsh Forms of Oaths and
Affirmations (Government of
Wales Act 2006) Order 2007**

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Order)

This Order prescribes Welsh forms of oaths and affirmations which certain members of the Welsh Assembly Government, and members of the National Assembly for Wales, are required by the Government of Wales Act 2006 (c.32) ("GOWA 2006") to take. GOWA 2006 provides that the English forms of those oaths and affirmations are to be ones which are contained in the Promissory Oaths Act 1868 (c.72) and the Oaths Act 1978 (c.19)

By virtue of section 26 of the Welsh Language Act 1993 (c.38), where an Act of Parliament specifies a form of words which is to be used for certain official or public purposes, the appropriate Minister of the Crown may make an Order which prescribes a form of words in Welsh to be used in circumstances which are specified in the Order.

The power to make such an Order was given to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672, Article 2, Schedule 1). The power was subsequently transferred to the Welsh Ministers by virtue of paragraph 30(1) of Schedule 11 to GOWA 2006.

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn gosod ffurf Gymraeg ar eiriau y caiff person a benodwyd yn Brif Weinidog Cymru, yn un o Weinidogion Cymru neu'n Gwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cynulliad Cymru, ei defnyddio i gymryd y llw swyddogol sy'n ofynnol gan adran 55(1) o DLIC 2006.

Mae erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn gosod ffurf Gymraeg ar eiriau y caiff y cyfryw berson ei defnyddio i wneud cadarnhad sy'n cyfateb i'r llw swyddogol sy'n ofynnol gan adran 55(1) o DLIC 2006.

Mae erthygl 4(1) o'r Gorchymyn yn darparu y caiff person a benodwyd yn Brif Weinidog, yn un o Weinidogion Cymru, yn Gwnsler Cyffredinol neu'n un o Ddirprwy Weinidogion Cymru, pan fo'n cymryd y llw teyrngarwch sy'n ofynnol gan adran 55(2) o DLIC, ddefnyddio'r ffurf Gymraeg ar eiriau a osodir yn erthygl 5(2) o'r Gorchymyn hwn. Mae erthygl 4(2) yn darparu y caiff, pan fo'n gwneud cadarnhad sy'n cyfateb i'r llw teyrngarwch, ddefnyddio'r ffurf Gymraeg ar eiriau a osodir yn erthygl 6(2) o'r Gorchymyn hwn. Y ffurfiau hynny ar eiriau yw'r rhai y caiff Aelodau Cynulliad eu defnyddio ar ôl iddynt gael eu hethol. Dim ond os na wnaeth hynny eisoes yn swyddogaeth Aelod Cynulliad y mae adran 55(2) yn ei gwneud yn ofynnol i berson a benodwyd yn Brif Weinidog, yn un o Weinidogion Cymru, yn Gwnsler Cyffredinol neu'n un o Ddirprwy Weinidogion Cymru, gymryd y llw teyrngarwch neu wneud cadarnhad cyfatebol.

Mae erthygl 5 o'r Gorchymyn hwn yn gosod ffurf Gymraeg ar eiriau y caiff Aelod Cynulliad ei defnyddio i gymryd y llw teyrngarwch sy'n ofynnol gan adran 23(1) o DLIC 2006.

Mae erthygl 6 o'r Gorchymyn hwn yn gosod ffurf Gymraeg ar eiriau y caiff Aelod Cynulliad ei defnyddio i wneud cadarnhad sy'n cyfateb i'r llw teyrngarwch sy'n ofynnol gan adran 23(1) o DLIC 2006.

Effaith erthygl 7 o'r Gorchymyn hwn yw mai enw'r Brenin neu'r Frenhines ar yr adeg y cymerir y llw neu y gwneir y cadarnhad sydd i'w ddefnyddio fel enw'r Brenin neu'r Frenhines yn y ffurfiau Gymraeg a osodir yn y Gorchymyn hwn.

Mae erthygl 8 yn dirymu Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Llw Teyrngarwch yn Gymraeg) 1999 (O.S. 1999/1101), sy'n gosod ffurfiau Gymraeg y llw teyrngarwch a'r cadarnhad cyfatebol yr oedd adran 20 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 yn ei gwneud yn ofynnol i Aelodau Cynulliad eu cymryd.

Article 2 of this Order sets out a Welsh form of words which may be used by a person who has been appointed as the First Minister for Wales, a Welsh Minister or the Counsel General to the Welsh Assembly Government, to take the official oath which is required by section 55(1) of GOWA 2006.

Article 3 of this Order sets out a Welsh form of words which may be used by such a person to make an affirmation which corresponds to the official oath which is required by section 55(1) of GOWA 2006.

Article 4(1) of this Order provides that where a person appointed as the First Minister, a Welsh Minister, the Counsel General or a Deputy Welsh Minister takes the oath of allegiance which is required by section 55(2) of GOWA 2006, they may use the Welsh form of words which is set out in Article 5(2) of this Order. Article 4(2) provides that where they make an affirmation corresponding to the oath of allegiance, they may use the Welsh form of words set out in Article 6(2) of this Order. Those forms of words are the ones which may be used by Assembly members after they have been returned. Section 55(2) of GOWA 2006 only requires a person appointed as the First Minister, a Welsh Minister, the Counsel General or a Deputy Welsh Minister to take the oath of allegiance, or make a corresponding affirmation, if they have not done so already in the role of an Assembly member.

Article 5 of this Order sets out a Welsh form of words which may be used by an Assembly member to take the oath of allegiance required by section 23(1) of GOWA 2006.

Article 6 of this Order sets out a Welsh form of words which may be used by an Assembly member to make an affirmation which corresponds to the oath of allegiance which is required by section 23(1) of GOWA 2006.

The effect of Article 7 of this Order is that the name of the Sovereign to be used in the Welsh forms set out in this Order is the name of the Sovereign at the time the oath is taken or the affirmation is made.

Article 8 revokes the National Assembly for Wales (Oath of Allegiance in Welsh) Order 1999 (S.I. 1999/1101), which sets out the Welsh forms of the oath of allegiance, and the corresponding affirmation, which section 20 of the Government of Wales Act 1998 required Assembly members to take.

2007 Rhif 2044 (Cy.169)

2007 No. 2044 (W.169)

DATGANOLI, CYMRU

DEVOLUTION, WALES

LLWON

OATHS

YR IAITH GYMRAEG

WELSH LANGUAGE

Gorchymyn Ffurfiâu Cymraeg
Llwon a Chadarnhadau (Deddf
Llywodraeth Cymru 2006) 2007

The Welsh Forms of Oaths and
Affirmations (Government of
Wales Act 2006) Order 2007

Wedi'i wneud 17 Gorfennaf 2007

Made 17 July 2007

*Wedi'i gosod gerbron Cynulliad
Cenedlaethol Cymru* 17 Gorfennaf 2007

*Laid before the National
Assembly for Wales* 17 July 2007

Yn dod i rym 18 Gorffennaf 2007

Coming into force 18 July 2007

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y gorchymyn canlynol drwy arfer y pŵer sydd yn adran 26(2) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.(1)

The Welsh Ministers make the following Order in exercise of the power in section 26(2) of the Welsh Language Act 1993(1).

Enwi, dehongli a chychwyn

Title, interpretation and commencement

1.-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ffurfiâu Cymraeg Llwon a Chadarnhadau (Deddf Llywodraeth Cymru 2006) 2007.

1.-(1) The Title of this Order is the Welsh Forms of Oaths and Affirmations (Government of Wales Act 2006) Order 2007.

(2) Yn y Gorchymyn hwn -

(2) In this Order -

mae i "Aelod Cynulliad" yr ystyr sydd i "*Assembly member*" yn adran 1(3) o Ddeddf 2006; ac

"the 2006 Act" means the Government of Wales Act 2006(2); and

ystyr "Deddf 2006" ("*the 2006 Act*") yw Deddf Llywodraeth Cymru) 2006.(2)

"Assembly member" has the meaning in section 1(3) of the 2006 Act.

(3) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 18 Gorffennaf 2007.

(3) This Order comes into force on 18 July 2007.

(1) 1993 p.38. Cyfarwyddodd erthygl 2 o Atodlen I i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), fod y y pŵer sydd yn adran 26(2) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 i fod yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn gyddredol ag unrhyw Weinidog y Goron sydd â'r pŵer i'w arfer. Trosglwyddwyd y pŵer o Gynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30(1) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("y Ddeddf").

(1) 1993 c.38. The National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672), article 2, Schedule 1, directed the power in section 26(2) of the Welsh Language Act 1993 to be exercisable by the National Assembly for Wales concurrently with any Minister of the Crown by whom the power is exercisable. The power was transferred from the National Assembly for Wales to the Welsh Ministers by virtue of paragraph 30(1) of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 ("the 2006 Act").

(2) 2006 p.32.

(2) 2006 c.32.

Ffurf Gymraeg y llw swyddogol a gymerir, neu'r cadarnhad cyfatebol a wneir, gan berson a benodwyd yn Brif Weinidog Cymru, yn un o Weinidogion Cymru neu yn Gwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cynulliad Cymru

2.-(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys pan fo person yn cymryd y llw sy'n ofynnol gan adran 55(1) o Ddeddf 2006.

(2) Caiff y person hwnnw gymryd y llw swyddogol yn ffurf hon -

"Yr wyf i,....., yn tyngu y gwasanaethaf Ei Mawrhydi y Frenhines Elizabeth yr Ail gydag iawnder a didwylledd yn swydd Cynorthwyed Duw fi."

3.-(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys pan fo person yn gwneud y cadarnhad cyfatebol sy'n ofynnol gan adran 55 (1) o Ddeddf 2006.

(2) Caiff y person hwnnw wneud y cadarnhad cyfatebol yn y ffurf hon -

"Yr wyf i, yn datgan ac yn cadarnhau yn ddifrifol, yn ddiffuant ac yn ddidwyll, y gwasanaethaf Ei Mawrhydi y Frenhines Elizabeth yr Ail gydag iawnder a didwylledd yn swydd"

Ffurf Gymraeg y llw teyrngarwch a gymerir neu 'r cadarnhad cyfatebol a wneir gan berson a benodwyd yn Brif Weinidog Cymru, yn un o Weinidogion Cymru, yn Gwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cynulliad Cymru neu'n un o Ddirprwy Weinidogion Cymru

4.-(1) Pan fo person yn cymryd y llw teyrngarwch sy'n ofynnol gan adran 55(2) o Ddeddf 2006(1) caiff y person hwnnw gymryd y llw yn y ffurf a osodir yn erthygl 5(2).

(2) Pan fo person yn gwneud y cadarnhad cyfatebol sy'n ofynnol gan adran 55(2) o Ddeddf 2006 caiff wneud y cadarnhad hwnnw yn y ffurf a osodir yn erthygl 6(2).

Welsh form of official oath taken or corresponding affirmation made by a person appointed as the First Minister for Wales, as a Welsh Minister or as the Counsel General to the Welsh Assembly Government

2.-(1) This article applies when a person takes the official oath required by section 55(1) of the 2006 Act.

(2) That person may take the official oath in this form -

"Yr wyf i,....., yn tyngu y gwasanaethaf Ei Mawrhydi y Frenhines Elizabeth yr Ail gydag iawnder a didwylledd yn swydd Cynorthwyed Duw fi."

3.-(1) This article applies when a person makes the corresponding affirmation required by section 55(1) of the 2006 Act.

(2) That person may make the corresponding affirmation in this form -

"Yr wyf i, yn datgan ac yn cadarnhau yn ddifrifol, yn ddiffuant ac yn ddidwyll, y gwasanaethaf Ei Mawrhydi y Frenhines Elizabeth yr Ail gydag iawnder a didwylledd yn swydd"

Welsh form of oath of allegiance taken or corresponding affirmation made by a person appointed as the First Minister for Wales, as a Welsh Minister, as the Counsel General to the Welsh Assembly Government, or as a Deputy Welsh Minister

4.-(1) When a person takes the oath of allegiance required by section 55(2) of the 2006 Act(1) they may take that oath in the form set out in article 5(2).

(2) When a person makes the corresponding affirmation required by section 55(2) of the 2006 Act they may make that affirmation in the form set out in Article 6(2).

(1) Mae adran 55(2) o Ddeddf 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i berson a benodwyd yn Brif Weinidog Cymru, yn un o Weinidogion Cymru, yn Gwnsler Cyffredinol Llywodraeth Cynulliad Cymru neu'n un o Ddirprwy Weinidogion Cymru gymryd llw teyrngarwch yn y ffurf a osodir yn adran 2 o Ddeddf Llwon Addewidiol 1868 (p.72), neu wneud cadarnhad cyfatebol. Mae adran 55(3) o Ddeddf 2006 yn eithrio'r cyfryw bersonau rhag y gofyniad hwn os ydynt wedi cymryd llw teyrngarwch neu wedi gwneud cadarnhad cyfatebol wrth gydymffurfio â dyletswydd ar gael eu hethol yn Aelod Cynulliad. Gan adran 23(1) o Ddeddf 2006 y gosodir y ddyletswydd ar Aelodau'r Cynulliad i gymryd y llw teyrngarwch neu i wneud cadarnhad cyfatebol.

(1) Section 55(2) of the 2006 Act requires a person appointed as the First Minister for Wales, as a Welsh Minister, as the Counsel General to the Welsh Assembly Government or as a Deputy Welsh Minister to take an oath of allegiance in the form set out in section 2 of the Promissory Oaths Act 1868 (c.72), or make a corresponding affirmation. Section 55(3) of the 2006 Act excepts such persons from this requirement if they have taken the oath of allegiance or made the corresponding affirmation in compliance with a duty on being returned as an Assembly member. The duty on Assembly members to take the oath of allegiance or make a corresponding affirmation is imposed by section 23(1) of the 2006 Act.

Ffurf Gymraeg y llw teyrngarwch a gymerir neu'r cadarnhad cyfatebol a wneir gan Aelod Cynulliad

5.-(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys pan fo Aelod Cynulliad yn cymryd y llw teyrngarwch sy'n ofynnol gan adran 23(1) o Ddeddf 2006.

(2) Caiff yr Aelod Cynulliad hwnnw gymryd y llw teyrngarwch yn y ffurf hon -

"Yr wyf i,, yn tyngu y byddaf yn ffyddlon ac yn wir deyrngar i'w Mawrhydi y Frenhines Elizabeth yr Ail, ei hetifeddion a'i holynwyr, yn unol â'r gyfraith. Cynorthwyed Duw fi."

6.-(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys pan fo Aelod Cynulliad yn gwneud y cadarnhad cyfatebol sy'n ofynnol gan adran 23(1) o Ddeddf 2006.

(2) Caiff yr Aelod Cynulliad hwnnw wneud y cadarnhad cyfatebol yn y ffurf hon -

"Yr wyf i, yn datgan ac yn cadarnhau yn ddifrifol, yn ddiffuant ac yn ddidwyll, y gwasanaethaf Ei Mawrhydi y Frenhines Elizabeth yr Ail, ei hetifeddion a'i holynwyr, yn unol â'r gyfraith."

Enw'r Brenin neu'r Frenhines ar y pryd i'w ddefnyddio mewn llwon a chadarnhadau

7. Pan fo enw Ei Mawrhydi y Frenhines bresennol yn ymddangos yn ffurfiau y llwon ffurfiol a'r cadarnhadau a ragnodir gan y Gorchymyn hwn, fe'i hamnewidir ag enw Brenin neu Frenhines y Deyrnas hon o bryd i'w gilydd.

Dirymu

8. Dirymir Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Y Llw Teyrngarwch yn Gymraeg).(1)

Welsh form of oath of allegiance taken or corresponding affirmation made by an Assembly member

5.-(1) This article applies when an Assembly member takes the oath of allegiance required by section 23(1) of the 2006 Act.

(2) That Assembly member may take the oath of allegiance in this form -

"Yr wyf i,, yn tyngu y byddaf yn ffyddlon ac yn wir deyrngar i'w Mawrhydi y Frenhines Elizabeth yr Ail, ei hetifeddion a'i holynwyr, yn unol â'r gyfraith. Cynorthwyed Duw fi."

6.-(1) This article applies when an Assembly member makes the corresponding affirmation required by section 23(1) of the 2006 Act.

(2) That Assembly member may make the corresponding affirmation in this form -

"Yr wyf i, yn datgan ac yn cadarnhau yn ddifrifol, yn ddiffuant ac yn ddidwyll, y gwasanaethaf Ei Mawrhydi y Frenhines Elizabeth yr Ail, ei hetifeddion a'i holynwyr, yn unol â'r gyfraith."

Name of Sovereign for the time being to be used in oaths or affirmations

7. Where the name of Her present Majesty appears in the forms of oaths or affirmations prescribed by this Order, the name of the Sovereign of this Kingdom shall be substituted from time to time.

Revocation

8. The National Assembly for Wales (Oath of Allegiance in Welsh) Order 1999(1) is revoked.

Jane E. Hutt

Y Gweinidog dros y Gyllideb a Rheoli Busnes, un o Weinidogion Cymru

Minister for Budget and Business Management, one of the Welsh Ministers

17 Gorfennaf 2007

17 July 2007

(1) O.S. 1999/1101.

(1) S.I. 1999/1101.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2007 Rhif 2044 (Cy.169)

DATGANOLI, CYMRU

LLWON

YR IAITH GYMRAEG

Gorchymyn Ffurfiâu Cymraeg
Llwon a Chadarnhadau (Deddf
Llywodraeth Cymru 2006) 2007

WELSH
STATUTORY INSTRUMENTS

2007 No. 2044 (W.169)

DEVOLUTION, WALES

OATHS

WELSH LANGUAGE

The Welsh Forms of Oaths and
Affirmations (Government of
Wales Act 2006) Order 2007

©© Hawlfraint y Goron 2007

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery
Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr
Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2007

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited
under the authority and superintendence of Carol Tullo,
Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of
Acts of Parliament.

£3.00

W107/08/07

ON